# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 12FED EBRILL 2017 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Is-gadeirydd (Llywyddu)

Cynghorwyr:

Mrs C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes), N. George (Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned), D.T. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), a T.J. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianneg).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau) ac N. Scammell (Cyfarwyddwraig Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn Bresennol:

J. Elias (Rheolwr Gwasanaeth – Anghenion Dysgu Ychwanegol), K. Peters (Rheolwraig Bolisi Corfforaethol), A. Rees (Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a’r Gymraeg)) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. CYHOEDDIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD

Arweiniodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd D.V. Poole, y Cabinet mewn munud o dawelwch fel arwydd o barch er cof am Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Keith Reynolds, a fu farw yn gynharach yn yr wythnos.

Talodd y Dirprwy Arweinydd deyrnged i'r Cynghorydd Reynolds, gwas cyhoeddus rhagorol, gydag egni diflino a phenderfyniad i wneud ei orau glas dros y gymuned leol a dros y fwrdeistref sirol.

Roedd pawb oedd yn bresennol yn ymestyn eu cydymdeimlad diffuant i'r teulu mewn profedigaeth ar yr adeg hynod o drist ac anodd hon.

### 2. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr K. James ac R. Woodyatt a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

**3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

**4. CABINET – 29AIN MAWRTH 2017**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ain Mawrth 2017 (rhifau cofnod. 1-6) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

5. ADRODDIAD YMGYNGHORI AR GAU CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL CYFNOD ALLWEDDOL 3 AR GYFER PLANT GYDAG ANAWSTERAU EMOSIYNOL, YMDDYGIADOL A CHYMDEITHASOL TRECELYN

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet am y broses ymgynghori ffurfiol a gofynnodd am gymeradwyaeth i fynd ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â chau'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Trecelyn.

Nododd y Cabinet y cynhaliwyd ymarferiad ymgynghori rhwng 23ain Ionawr a 15fed Mawrth 2017. O ganlyniad, derbyniwyd tri ymateb i'r ymgynghoriad gan Bennaeth Ysgol Trecelyn, Corff Llywodraethu Ysgol Trecelyn (roedd y ddau'n cefnogi'r cynnig) ac Estyn, a oedd yn cynghori 'Mae'r rhan fwyaf o'r agweddau ar y cynnig yn cael ystyriaeth briodol ac mae'r cynigydd yn gwneud dadleuon cadarn i ddangos sut y byddai cau ganolfan yn arwain at well ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol a'r rhai sy'n mynychu ysgol brif ffrwd '. Manylwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymatebion yr Awdurdod Lleol yn yr atodiad i'r adroddiad.

Gofynnwyd i'r Cabinet i nodi fod Pennaeth Ysgol Trecelyn wedi datgan, mewn ymateb i Estyn, "Hoffwn nodi y cafodd Ysgol Trecelyn ei rhoi o dan oruchwyliaeth i'w monitro yn dilyn arolygiaeth ym Mehefin 2015 a daeth allan o'r oruchwyliaeth ym mis Hydref 2015, hynny yw wedi cyfnod byr o bedwar mis. Nid yw hyn wedi cael ei nodi gan Estyn yn eu sylwadau. "

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, ac o ystyried canlyniad y broses ymgynghori, y dylid cytuno i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol.

**6. ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2015-2016**

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/2016 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol y Cyngor, ac yn gofyn am gymeradwyaeth i'w gyflwyno i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i gyhoeddi ar-lein.

Nododd y Cabinet fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar faterion Cydraddoldeb dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Mae'r adroddiad yn fanwl iawn o ran pa wybodaeth berthnasol sydd angen ei chynnwys yn yr adroddiad monitro a gwella blynyddol. O ganlyniad, mae'r swm o wybodaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau fod y corff rheoleiddio sy'n gysylltiedig (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau

Dynol) yn cael eu darparu gyda thystiolaeth lawn o gydymffurfiaeth ac ymrwymiad y Cyngor i'r dyletswyddau statudol hynny.
Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i gyflwyno'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2015-2016 i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i gyhoeddi ar y rhyngrwyd.

Cyn cau'r Cyfarfod, diolchodd y Dirprwy Arweinydd, Y Cynghorydd D.V. Poole, i'r Swyddogion a oedd yn bresennol ac i'w gydweithwyr yn y Cabinet am eu holl waith caled a'u hymroddiad yn ystod y weinyddiaeth hon, a dymunodd y gorau i bawb ar gyfer yr etholiadau i ddod. Diolchodd y Prif Weithredwr, yn ei dro, i'r Cabinet am ei berthynas waith cadarnhaol ac effeithiol.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.13 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed Mehefin, 2017.

________________________

CADEIRYDD